LLEOLIAD: Neuadd y Sir, Brynbuga ond nodwch y gall hyn newid yn y dyfodol os oes angen newid lleoliad y gwasanaeth. Ni fydd treuliau adleoli yn cael eu talu os yw hyn yn digwydd.

GWIRIAD GAN Y GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD:

- Nid oes angen y gwiriad uchod ond bydd angen i chi gael gwiriad manwl gan Heddlu Gwent er mwyn medru derbyn gwybodaeth gan Gangen Arbennig yr heddlu.

ASESIAD O'R GYMRAEG:

- Sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol

DIOGELU:

Mae Diogelu ac Amddiffyn Plant ac Oedolion yn flaenoriaethau allweddol i'r Cyngor. Ein nod yw cefnogi plant ac oedolion sydd mewn perygl i fod mor ddiogel ag y gallant ac i gyflawni eu potensial. Mae holl weithwyr a gwirfoddolwyr y Cyngor yn gyfrifol am chwarae rhan yng ngwaith lles, diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl. Bydd yr holl weithwyr a gwirfoddolwyr yn cael eu hyfforddi i'r lefel briodol o ddiogelu ac mae ganddynt ddyletswydd i gyflawni eu cyfrifoldebau personol dros ddiogelu.

YN ATEBOL I: Rheolwr Dylunio

Gwasanaethau Landlordiaid ...Pwy ydym ni?

Ein Pwrpas:-

Yn sicrhau bod eiddo ac asedau tir y Cyngor yn cael eu rheoli mewn modd strategol er mwyn gwarantu bod asedau gweithredol yn diwallu anghenion darparwyr gwasanaeth a defnyddwyr, ac yn ddiogel ac yn cydymffurfio gyda'r ddeddfwriaeth bresennol. Byddwn yn darparu gwasanaeth cynhwysfawr er mwyn diwallu'r holl anghenion sydd yn ymwneud gyda rheoli, datblygu a buddsoddi eiddo ac yn ceisio sicrhau cydraddoldeb ariannol ac o ran gwerth cymdeithasol.

Pwrpas y Rôl hon:-

Yn gyfrifol am oruchwylio a'n sicrhau bod gwaith adeiladu a chynnal a chadw ar safleoedd yn cael ei gwblhau'n ddiogel, yn llwyddiannus a'n cydymffurfio gyda'r rheoliadau technegol, a hynny ar ran Cyngor Sir Fynwy a'i bartneriaid yn unol gyda gofynion cytundebol y prosiect a'n rhoi cyngor i'r tîm cynnal a chadw i ddarparu gwaith dylunio adeiladau effeithiol, arolygon, atgyweirio a gwelliannau i'r gwasanaeth adeiladau, ar gyfer yr Awdurdod cyfan a chwsmeriaid allanol

Disgwyliadau a Chanlyniadau'r Rôl hon:-

Rhaid i chi fedru gweithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm. Byddwch yn aelod effeithiol o dîm, yn medru gweithio ag eraill, yn fewnol a chleientiaid allanol a'n meddu ar sgiliau rhyngpersonol ardderchog

Byddwch yn dirprwyo ar ran y Clerc Gwaith Ffabrig Cynnal a Chadw yn ystod cyfnodau o wyliau a salwch.

Byddwch angen gweithio gyda'r hwyr ac ar y penwythnos fel sydd angen.

Bydd eich cyfrifoldebau yn cynnwys to-

- Yn sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r gwaith adeiladu; yn goruchwylio'r holl waith adeiladu er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio gyda'r rheoliadau statudol a'r cyfreithiau, ac yn benodol Rheoliadau Dylunio Adeiladu 2015.
- Yn sicrhau bod y gwaith yn cydymffurfio gyda'r manylebau a manylion y dyluniad fel sydd wedi ei nod yn y contractau - gan oruchwylio prosiectau adeiladu a'u gweithgareddau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda'r lluniau dylunio manwl a'r manylebau a gofynion y cytundeb, gan wneud cofnod ffurfiol o bob arolwg.
- Monitro safon gyffredinol y gwaith- arolygu'r gwaith yn gyson er mwyn sicrhau cyn lleied o broblemau a diffygion ag sydd yn bosib a'n gwneud y gwaith cywiro er mwyn sicrhau'r safonau uchaf a gwerth am arian i'r Cleient.
- Yn rhagweithiol wrth fynd i'r afael gyda diffygion – drwy arolygu'n gyson, a sicrhau bod hyn yn rhan o'r rhaglen adeiladu, gan gynnwys rhoi'r gymeradwyaeth derfynol i'r adeiladau sydd wedi eu cwblhau.
- Yn gwneud argymhellion (lle bo'n briodol) i Reolwr Prosiect y Cleient, a hynny drwy gydol y broses adeiladu, er mwyn gwella effeithlonrwydd a'n sicrhau'r cynnyrch gorau posib i'r Cleient.
- Yn gyfrifol am arolygu / goruchwylio yn ystod y gwaith adeiladu, gan sicrhau bod yr holl waith yn cael ei gwblhau'n unol gyda'r safonau uchaf, gan gynnwys profi a chomisiynu gweithgareddau sydd yn cael eu gwneud gan eraill.

- Yn ymgymryd â rôl actif sydd yn cefnogi'r gwaith o drosglwyddo gwaith sydd wedi eu cwblhau i'r Cleient fel rhan o'r statws galwedigaethol/gweithredol; mae hyn yn cynnwys craffu'r prosiectau cynnal a chadw, tystysgrifau cyswllt perthnasol a chymeradwyo'r gwaith.
- Ymgymryd ag unrhyw waith arolygu, delio ag unrhyw ddiffygion, paratoi rhestr o ddiffygion a'r camau cywiro sydd eu hangen ar declyn adrodd meddalwedd safonol – ac adrodd nol i dîm Prosiect Cleient a'r Rheolwr Prosiect.
- Hyrwyddo a'n gyrru'r gwaith o sicrhau'r cynnyrch o'r safon uchaf ar gyfer y Cleient. Yn gyrru gwelliannau er mwyn sicrhau'r lefel uchaf bosib o wasanaeth proffesiynol.
- Mynychu cyfarfodydd ar safleoedd er mwyn mesur cynnydd a'n darparu adroddiad Clerc Gwaith / Goruchwylwyr i'r Rheolwr Prosiect.
- Cynorthwyo Rheolwr Iechyd a Diogelwch Cyngor Sir Fynwy er mwyn sicrhau bod yr holl waith a wneir ar brosiectau CSF a phartneriaid yn cael ei gwblhau i'r safon uchaf o ran diogelwch ac mewn modd effeithiol a phroffesiynol a bod cydymffurfiaeth gyda'r holl ddeddfwriaeth gyfredol o ran diogelwch a'r elfennau technegol – gan gynnwys archwiliadau ad-hoc o;
 - Trefniadau CDM a'r ffordd y mae'r safle wedi ei drefnu
 - Asesu Asesiadau Risg a'r Datganiadau o Ddulliau sydd wedi eu cyflwyno gan gcontractwyr
 - Asesu Asesiadau Risg a'r Datganiadau o Ddulliau sydd wedi eu creu gan staff
 - Systemau diogel o weithio (trwyddedu/gweithdrefnau gweithio ar wahân/ profi ac ail-gomisiynu)
- Yn cynnig barn broffesiynol a'n gwneud argymhellion o ran y dulliau amgen a'r camau cywiro sydd eu hangen, gan arddangos dealltwriaeth o ddeunyddiau adeiladu, gan gynnwys sut i'w defnyddio, cyfyngiadau ac opsiynau amgen.
- Yn adeiladu a'n cynnal perthynas effeithiol a chydweithredol gyda chydweithwyr ac adrannau eraill ar draws Cyngor Sir Fynwy a'r partneriaid.
- Yn dysgu am y ddeddfwriaeth, y rheoliadau a'r datblygiadau technegol sydd yn ymwneud gyda'r gwaith adeiladu.
- Yn paratoi dogfennau briffio ar gyfer cleientiaid, a hynny o ran y cynlluniau adeiladu newydd sydd yn medru costio miliynau o bunnoedd.
- Arwain a rheoli ymgynghorwyr trydydd parti allanol, yn dilysu pecynnau dylunio er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda gofynion a dyheadau'r Awdurdod o ran ansawdd, cost ac amser a gofynion y rhaglen. Bydd hyn yn cynnwys trafodaethau rhwng cymheiriaid, dadleuon gyda phartneriaid / gweithwyr proffesiynol profiadol mewn cwmnïau ymgynghori allanol.
- Yn arddangos profiad sylweddol yn y diwydiant adeiladu, gan gynnwys gwybodaeth eang am waith adeiladu, yn gyfarwydd gyda chontractau, goruchwyllo ar y safle a'n medru blaenoriaethau a gwneud penderfyniadau mewn modd effeithiol.
- Yn dirprwyo ar ran y Clerc Gwaith Ffabrig fel sydd angen

- Yn defnyddio pecynnau meddalwedd/technoleg gyfredol er mwyn gwella'r gwasanaethau peirianeg drydanol sydd yn cael eu darparu ac yn gymwys i ddefnyddio Vectorworks, Autocad a Hevacomp a Mynegai Technegol a llyfrgell dechnegol ar-lein ar gyfer cynnyrch fel canllawiau CIBSE, Safonau Prydeinig, Rheoliadau Adeiladu ayyb.
- Yn ymgymryd â gwaith cynllunio, dichonolrwydd a chost ar gyfer gwaith gosod a chynnal a chadw Gwasanaethau Peirianeg Fecanyddol. Yn cynnig costau a'n llunio a'n cynnal gwybodaeth cynllunio costau.
- Yn paratoi a'n cyhoeddi'r holl ddogfennau tendro er mwyn caniatáu'r holl gynlluniau peirianeg fecanyddol er mwyn sicrhau bod y broses dendro yn cydymffurfio gyda gorchmynion sefydlog yr Awdurdod a gweithdrefnau a pholisïau'r adran. Yn dadansoddi ac adrodd ar y cynigion gan contractwyr.
- Yn meddu ar wybodaeth dda o'r 'JCT Minor Works forms of Contracts' a 'NEC 3 a 4 forms of Contract'.
- Yn gweithredu fel y goruchwylydd ar gyfer y ffurflen contract NEC 3 a 4 sydd yn gyfrifol am gofnodi a monitro unrhyw ddiffygion o ran y gwaith ar y safle gan ddefnyddio amryw o becynnau recordio meddalwedd e.e. Fieldview, BIM360.
- Yn ymgymryd gyda systemau dylunio ac addasu teilwredig a'n gwneud addasiadau / gwelliannau yn unol gyda deddfwriaeth newydd/ gofynion newidiol.
- Yn sicrhau bod prosiectau yn cael eu cwblhau o fewn amser ac o fewn y gyllideb a'n cwrdd â gofynion y dogfennau tendr a'n cynnig yr adroddiadau perthnasol i ymgynghorwyr a chleientiaid
- Cynnal arolygon cyflwr a dadansoddiad o gylch bywyd.
- Yn cyflwyno a'n negodi ceisiadau fel sydd angen i'w cymeradwyo o ran rheoliadau cynllunio, rheoliadau adeiladu a gofynion statudol eraill
- Gwerthuso unrhyw hawliau a setliadau yn erbyn y gwaith a wneir ac unrhyw amrywiaethau o ran y gwasanaethau adeiladu.
- Yn cynrychioli'r adran fel sydd angen ar faterion sydd yn ymwneud gyda'r gwasanaeth gan gynnwys darparu cyngor proffesiynol a thechnegol i swyddogion, pwyllgorau, cyrff proffesiynol a mudiadau eraill.
- Cydymffurfio gydag egwyddorion a phractis cyfle cyfartal yr Awdurdod fel sydd wedi eu hamlinellu ym Mholisi Cyfle Cyfartal y Cyngor.
- Cyfrannu at gyflawni'r amcanion adrannol a chorfforaethol.
- Yn sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r ddeddfwriaeth bresennol a Gorchmynion Sefydlog y Cyngor a Pholisi Cyfle Cyfartal y Cyngor.

- Yn gweithio weithiau ar y penwythnos a gyda'r hwyr pan fydd angen ac yn cymryd rhan yn rota'r Adran o dro i dro ar gyfer gweithio oriau y tu hwnt i oriau swyddfa arferol. .
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill sydd eu hangen gan Gyngor Sir Fynwy ac yn gymesur gyda lefel a chylch gorchwyl y rôl hon.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill sydd eu hangen gan Gyngor Sir Fynwy ac yn gymesur gyda lefel a chylch gorchwyl y rôl hon.
- Gweithredu a monitro polisi a phractis lechyd a Diogelwch er mwyn sicrhau bod staff a chwsmeriaid yn mwynhau amgylchedd diogel.
- Yn dal neu'n fodlon sicrhau lefelau uwch o gliriad diogelwch gan Heddlu Gwent er mwyn cael mynediad at wybodaeth y 'Gangen Arbennig'.

Byddwch chi yn

Ffocysu ar yr elfen fasnachol;

- Byddwch yn cael eich gyrru gan yr angen i greu gymaint ag sydd yn bosib o'r ffynonellau refeniw drwy reoli portffolio buddsoddi'r Cyngor yn effeithiol.
- Byddwch yn gwrtais drwy'r amser, yn chwilio am gyfleoedd arloesol ac yn datblygu rhwydweithiau proffesiynol cryf
- Yn chwarae rôl allweddol yn sicrhau bod ein hadeiladau yn ddiogel, yn cydymffurfio, yn addas i'r diben ac yn sicrhau'r gwerth / meddiannaeth fwyaf posibl.

Ffocysu ar y canlyniadau;

- Parhau i fonitro eich allbwn bob tro yn erbyn y perfformiad a gytunir.
- Darparu gwasanaethau safon uchel i gleientiaid mewnol ac allanol a budd-ddeiliaid eraill yn unol gyda pholisïau cyfredol.
- Yn sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r holl ddeddfwriaeth a'r rheoliadau priodol wrth ddarparu ein gwasanaethau.
- Darparu lefel uchel o wasanaethau i gwsmeriaid a dinasyddion.

Yn gyfathrebwyr effeithiol;

- Datblygu, annog a chynnal perthynas waith sydd yn elwa'ch gilydd ac yn effeithiol, a hynny gyda phartneriaethau mewnol ac allanol o ran cyrff statudol, aelodau etholedig, cymunedau lleol, contractwyr, gwirfoddolwyr.

Yn effeithiol yn rheoli adnoddau;

- Yn sicrhau bod yr adnoddau yn cael eu defnyddio yn y modd mwyaf effeithiol ac effeithlon.
- Yn sicrhau bod eich gwybodaeth broffesiynol/dechnegol yn gyfredol.
- Defnyddio ffynonellau eraill er mwyn rhannu gwybodaeth fel sydd angen er mwyn cyflawni amcanion.
- Rheoli cyllidebau yn effeithiol er mwyn cefnogi amcanion busnes.
- Yn gwneud y defnydd gorau o dechnoleg

Prosesau;

- Yn sicrhau, o fewn eich cyfrifoldebau, bod yr holl brosesau, practis a systemau yn cael eu gweithredu yn unol ag anghenion Sir Fynwy ac yn cydymffurfio gyda'r ddeddfwriaeth bresennol.
- Cynnal systemau effeithiol ar gyfer monitro, adolygu a gwerthuso'r perfformiad.
- Rheoli'r broses o gasglu, dadansoddi, dehongli, prosesu a chyflwyno ystod o wybodaeth neu ddata fel sydd angen.

Dyma'r hyn y mae modd i ni ddarparu i chi:-

- Gliniadur, ffôn mudol a'r defnydd o gar i'w rhannu
- Tîm yn egnïol a brwdfrydig er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer y Cyngor a'r cymunedau lleol.
- Cefnogaeth gan y tîm ehangach yn Sir Fynwy.
- Cyfleoedd i hyfforddi er mwyn datblygu eich sgiliau a'ch profiad yn broffesiynol a'n bersonol.
- Y cyfle i ddatblygu sgiliau yn unol gyda'r strategaeth 'Mwy Na Geiriau'
- Yn unol gydag amcanion y gwasanaeth, bydd yna gyfle i weithio'n hyblyg a'n ystwyth er mwyn annog cydbwysedd rhwng gwaith/bywyd yn gyffredinol
- Pecyn hael o wyliau gan gynnwys dau ddiwrnod ychwanegol bob blwyddyn ar ben eich lwfans gwyliau blynyddol a diwrnodau gŵyl y banc
- Parcio am ddim yn Neuadd y Sir
- Manteisio ar Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Beth arall sydd angen i chi wybod.....Ein Gwerthoedd:

Caiiff ein diben ei seilio ar ymdeimlad clir o bwy ydym fel sefydliad. Disgwylwn i'r bobl sy'n gweithio gyda ni i rannu set gref o werthoedd a disgwylwn y bydd y rhain yn amlwg yn y ffyrdd y gweithiwn ac yr ymgysylltw'n gyda'n cymunedau.

- Gwaith tîm:** Byddwn yn gweithio gyda chi a'ch partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan. Byddwn yn gwneud y gorau glas o'r syniadau a'r adnoddau sydd ar gael i sicrhau ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith fwyaf cadarnhaol ar ein pobl a'n lleoedd.
- Tryloywder:** Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan a dweud wrthym beth sy'n bwysig.
- Hyblygrwydd:** Rydym yn hyblyg, gan alluogi darparu'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.
- Tegwch:** Rydym yn rhoi cyfleoedd i bobl a chymunedau i ffynnu. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson.
- Caredigrwydd:** Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb y gweithiwn gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthynas a'r cysylltiadau sydd gennym gyda'n gilydd wrth galon bob rhyngweithio.

A bydd y rôl hon yn gweithio gyda Sir Fynwy er mwyn cyflawni hyn.

Y Gymraeg yn Ddymunol

Gall fod angen i chi ddysgu neu wella eich sgiliau presennol drwy fynychu hyfforddiant Cymraeg i staff a gyllidir gan y Cyngor. Gweithredir hyn os yw'r angen yn codi am sgiliau yn y Gymraeg ar gyfer y swydd.

Yn ychwanegol at hyn:

Mae'r holl weithwyr yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn gweithredu bob amser mewn ffordd sy'n gydnaws â Pholisi Cyfle Cyfartal Sir Fynwy yn eu meysydd o gyfrifoldeb ac fel rhan o'u hymddygiad cyffredinol.

Mae Cyngor Sir Fynwy yn gweithredu polisi Dim Ymysgu yn y Gweithle ac mae disgwyl i'r holl weithwyr i gydymffurfio gyda hyn.

Manyleb Person

Sut fyddwn yn gwybod os mai chi yw'r person cywir ar gyfer y rôl hon? Fel yr ymgeisydd llwyddiannus, byddwch wedi arddangos y canlynol:-

- Yn meddu ar radd/HNC/ONC neu gyfatebol ym maes Arolygu Adeiladu neu gymhwyster adeiladu perthnasol tebyg
- Yn meddu ar statws Aelodaeth ar gyfer Sefydliad y Clerciaid Gwaith a'r Arolygiaeth Adeiladu (ICWCI)
- Yn meddu ar gymhwyster Cynllun Hyfforddi Diogelwch Rheoli Safle (neu gyfatebol)
- Arddangos profiad sylweddol o'r diwydiant adeiladu, gan gynnwys gwybodaeth gyffredinol o waith adeiladu, yn gyfarwydd gyda chontractau, goruchwyllo ar y safle a'n arddangos sgiliau blaenoriaethu a gwneud penderfyniadau effeithiol.
- Rhaid meddu ar brofiad amlwg o fedru adnabod diffygion, paratoi amserlenni/manylebau ar gyfer gwaith adeiladu.
- Dealltwriaeth dda o broses arolygu'r manwl (yn enwedig arolygu'r deunyddiau a'r gwaith a wneir) a'r gallu i lunio cofnodion cryno ar gyfer llunio casgliadau'r adroddiadau ffurfiol.
- Dealltwriaeth fanwl o rôl diffiniedig a goblygiadau statudol yr holl bartïon sydd yn rhan o'r gwaith adeiladu (gan gyfeirio at Reoliadau Dylunio 2015)
- Profiad ymarferol digonol er mwyn medru rhagweld pethau cyn iddynt ddigwydd a'n medru awgrymu dulliau amgen a thechnegau lliniaru
- Yn medru talu sylw i fanylder a'n ffocysu ar ansawdd, hyrwyddo agwedd gwneud pethau'n iawn am y tro cyntaf, lleihau gorfod ail-wneud y gwaith.
- Yn gweithio mewn modd diduedd, a theg ac ystyrlon ac annibynnol gan sicrhau gwerth am arian ar gyfer client
- Yn meddu ar ddealltwriaeth dda o ofynion cydymffurfiaeth statudol a diwydiannol, gan gynnwys Cynllunio, Rheoliadau Adeiladu, Caniatâd Adeiladau Rhestredig a Deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch.
- Y gallu i gymryd llawer o gyfrifoldeb, sgiliau cyfathrebu, cyflwyno a rhyngpersonol gwyb gydag elfen uchel o hunan-gymhelliant a'n medru rheoli amser. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gorfod bod yn hyblyg a'n rhagweithiol.

- Rhaid meddu ar sgiliau cyfathrebu, TG a threfnu ardderchog.

Os ydych angen unrhyw wybodaeth bellach am y rôl hon, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda:

Nick Perry Rheolwr Cynnal a Chadw a Chylfeusterau ar 07909537636

nicholasperry@monmouthshire.gov.uk

Dyddiad Cau: 12pm ar 10fed Tachwedd 2022

FFRAMWAITH SGILIAU YN Y GYMRAEG

LEFEL 1

Gall ddeall ymadroddion sylfaenol bob dydd os yw'r siaradwr yn siarad yn araf ac yn glir ac yn fodlon helpu. Gall gyflwyno ei hunan ac eraill a gall ofyn ac ateb cwestiynau am wybodaeth sylfaenol e.e. unigolyn yn gofyn am weld rhywun, ble mae cyfarfod xxx, toiled ac yn y blaen. Gall drosglwyddo galwadau ffôn, cyfleu neges fer neu wneud cais syml e.e. drwy e-bost.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
➤ Gall ddeall cwestiynau syml: lle mae cyfarfod xxx, pwy yw'r person y dymunant ei weld. Gall ddeall i bwy i drosglwyddo galwad ffôn ac yn y blaen.	➤ Gall ynganu enwau lleoedd ac enwau personol yn gywir. ➤ Gall gyfarch unigolion wyneb yn wyneb neu dros y ffôn. ➤ Gall agor a chau sgwrs neu agor a chau cyfarfod.	➤ Gall ddarllen brawddeg fer, e.e. arwyddion syml, cyfarwyddiadau syml, eitemau agenda, gwybodaeth syml ar ffurflenni.	➤ Gall agor a chau neges e-bost neu lythyr. ➤ Gall ysgrifennu enwau personol, enwau lleoedd, teitlau swyddi. ➤ Gall ysgrifennu neges syml i gydweithiwr a bapur neu e-bost e.e. mae hwn a hon wedi galw.

LEFEL 2

Gall ddeall brawddegau pan mae pobl yn siarad am sefyllfaoedd bob dydd, e.e. gwybodaeth bersonol a theuluol syml. Gall gynnal sgwrs sylfaenol gyda rhywun i gael neu gyfnewid gwybodaeth syml e.e. trafod sut mae person yn teimlo; rhywbeth a ddigwyddodd; cynllun syml ar gyfer y dyfodol. Gall ysgrifennu a deall negeseuon mewn llythyrau neu negeseuon e-bost yn disgrifio materion cyfarwydd ac ysgrifennu mewn brawddegau byr.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
➤ Gall ddeall pan mae pobl yn siarad yn araf am sefyllfaoedd bob dydd e.e. rhoi gwybodaeth bersonol, siarad am beth fuont yn ei wneud, yr hyn yr hoffent ei wneud, sut y teimlant yn gyffredinol ➤ Gall ddeall pan mae pobl yn gofyn iddynt wneud rhywbeth	➤ Gall gyfathrebu gwybodaeth syml neu ofyn cwestiynau cyffredin, e.e. cael gwybodaeth gan unigolion. ➤ Gall ddefnyddio'r Gymraeg i gyrraedd a dangos empathi gydag unigolyn ond dim i gynnal yr holl sgwrs neu sesiwn yn y Gymraeg. ➤ Gall gynnal sgwrs fer gydag unigolyn neu gyfnewid gwybodaeth cymharol syml. ➤ Gall gyfrannu at gyfarfod ond bydd angen troi i'r Saesneg ar gyfer termau arbenigol.	➤ Gall ddarllen negeseuon byr a rhai llythyrau neu negeseuon e-bost, e.e. rhai sy'n gwneud cais neu'n gofyn am gyfleu neges	➤ Gall ysgrifennu neges fer at gydweithiwr yn gofyn cwestiwn, yn diolch iddo/iddi esbonio rhywbeth e.e. amser a lle cyfarfod ➤ Gall ysgrifennu llythyr neu neges e-bost byr i drefnu apwyntiad

LEFEL 3

Gall ddeall y prif bwyntiau pan mae unigolyn neu gydweithiwr yn siarad am bynciau cyfarwydd e.e. yn ystod sgwrs neu gyfarfod grŵp bach. Gall gynnal sgwrsiau estynedig gyda siaradwyr rhugl am bynciau cyfarwydd yn ymwneud â gwaith bob dydd. Gall ddisgrifio profiadau a digwyddiadau a rhoi esboniadau am a rhesymau cryno am farnau a chynlluniau. Gall ddarllen erthyglau, llythyrau neu negeseuon e-bost am bynciau cyffredinol. Gall ysgrifennu llythyrau neu negeseuon e-bost am y rhan fwyaf o bynciau, e.e. yn gofyn am rywbeth; rhoi gwybodaeth; gwahodd rhywun neu drefnu digwyddiad.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
➤ Gall ddeall unigolion a chydweithwyr wrth gyfnewid gwybodaeth neu drafod cynlluniau, os yw'r pwnc yn gyfarwydd. ➤ Gall ddeall trafodaeth mewn cyfarfod os yw'r pwnc yn gyfarwydd.	➤ Gall gymryd rhan yn y rhan fwyaf o sgwrsiau gyda chydweithwyr am waith a chynlluniau os nad yw'r eirfa yn rhy dechnegol.	➤ Gall ddeall y rhan fwyaf o negeseuon e-bost neu lythyrau'n ymwneud â gwaith dydd i ddydd. ➤ Gall ddyfalu ystyr gair yn seiliedig ar gyd-destun os yw'r pwnc yn gyfarwydd.	➤ Gall ysgrifennu llythyr neu neges e-bost a unigolyn neu gydweithiwr am y rhan fwyaf o bynciau er mwyn gofyn am rywbeth; rhoi esboniad; disgrifio profiad neu sefyllfa gwahodd pobl neu drefnu digwyddiad.

➤ Gall ddeall unigolion a chydweithwyr mewn sefyllfa gyfarwydd neu mewn sgwrs bob dydd.	➤ Gall gynnal sgwrs gydag unigolyn neu gyfnewid gwybodaeth cymharol syml. ➤ Gall gyfrannu at gyfarfod ond gall fod angen troi i'r Saesneg am dermau arbenigol. ➤ Gall addasu cywair iaith i weddu i'r gynulleidfa.	➤ Gall ddarllen erthygl syml a rhwydd mewn papurau newydd neu fathau o ddeunydd ysgrifenedig mewn cylchgrawn.
---	--	---

LEFEL 4

Gall fel arfer ddilyn y rhan fwyaf o sgysiau neu drafodaethau, hyd yn oed ar bynciau anghyfarwydd. Gall siarad yn hyderus gyda siaradwyr rhugl am bynciau cyfarwydd yn ymwneud â gwaith, a mynegi barn, cymryd rhan mewn trafodaeth a siarad yn helaeth am bynciau cyffredinol e.e. mewn cyfarfodydd neu sefyllfaoedd un-i-un gydag unigolion. Gall ddeall y rhan fwyaf o ohebiaeth erthyglau papur newydd ac adroddiadau a fwriedir ar gyfer siaradwyr rhugl gyda chymorth adnoddau Cymraeg a gall fwrw golwg dros destunau hir i ganfod manylion. Gall lenwi ffurflenni a ysgrifennu adroddiadau'n ymwneud â gwaith ac ymateb yn gywir.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
➤ Gall ddilyn y rhan fwyaf o sgysiau a thrafodaethau gydag unigolion neu gydweithwyr hyd yn oed os yw'r deunydd pwnc yn anghyfarwydd.	➤ Gall gyfrannu'n effeithlon at gyfarfodydd mewnol ac allanol mewn cyd-destun gwaith. ➤ Gall sgwrsio'n gysurus gydag unigolion a chyfnewid gwybodaeth fel sydd angen. ➤ Gall ddadlau dros ac yn erbyn achos penodol. ➤ Gall gadeirio cyfarfodydd ac ateb cwestiynau o'r gadair yn hyderus.	➤ Gall ddarllen y rhan fwyaf ohebiaeth a bwrw golwg ar destunau hir i ganfod manylion. ➤ Gall ddeall y rhan fwyaf o erthyglau ac adroddiadau papur newydd gyda chymorth geiriadur. ➤ Gall ddeall testunau, os na ysgrifennwyd mewn dull ffurfiol iawn neu dafodieithol.	➤ Gall gynhyrchu gohebiaeth o bob math adroddiadau byr, dogfennau a llenyddiaeth gyda chymorth offer cyfieithu Cymraeg e.e. Cysgair, Cysill.

LEFEL 5

Gall ddeall popeth a gaiff ei ddweud. Gall siarad yn helaeth am faterion cymhleth, gan gyflwyno gwybodaeth anodd a gall hwyluso a chrynhof trafodaethau estynedig neu gymhleth. Gall grynhoi gwybodaeth o wahanol ffynonellau (yn llafar ac yn ysgrifenedig) a'i chyflwyno mewn modd cydlynus. Gall fynegi ei hunan yn fyrfyr, rhugl ac yn fanwl, gan addasu'r iaith i weddu i'r gynulleidfa.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
➤ Gall ddilyn pob sgwrs a thrafodaeth gydag unigolion neu gydweithwyr. ➤ Gall ddeall amwysedd a naws iaith.	➤ Gall fynegi ei hunan yn fanwl, hyd yn oed wrth drafod materion cymhleth ➤ Gall addasu arddull a chywair yr iaith i weddu i'r gynulleidfa.	➤ Gall ddarllen a deall bron bob testun ysgrifenedig heb anhawster, gan ddefnyddio geiriadur yn achlysurol. ➤ Gall ddarllen testunau hir i ganfod manylion perthnasol a gall ddeall y rhan fwyaf o fathau o ddeunydd ysgrifenedig.	➤ Gall ysgrifennu adroddiadau mewn arddull glir addas i'r darlennydd gyda chefnogaeth offer cymorth iaith electronig. ➤ Gall ysgrifennu Cymraeg ffurfiol neu anffurfiol yn ôl yr angen. ➤ Gall ysgrifennu ystod o ddogfennau yn gywir ac yn hyderus.

